# Caffael Cymdeithasol Gyfrifol: Canllaw byr i gyflenwyr ar y gyfraith newydd

Ar 25 Mawrth 2026 daeth rheolau newydd ar gaffael cyhoeddus yng Nghymru i rym. Mae'r dyletswyddau caffael yn Neddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) (Deddf SPPP) 2023 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus penodol ymgymryd â'u caffael mewn ffordd sy'n gwella llesiant cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol.

Mae dros £10 biliwn yn cael ei wario ar gaffael cyhoeddus yng Nghymru bob blwyddyn. Mae'r dyletswyddau caffael cymdeithasol gyfrifol yn y Ddeddf SPPP yn berthnasol i'r broses gyfan, o'r camau cynllunio cynnar hyd at y cyfnod reoli contractau. Dylai cyflenwyr ddisgwyl cael eu holi am sut maen nhw'n sicrhau canlyniadau llesiant a rheoli risgiau yn ystod y broses gaffael, ac wrth i gontractau gael eu rheoli.

Mae Awdurdodau Contractio yn gyrff cyhoeddus a restrir yn Atodlen 1 o'r Ddeddf SPPP. Er bod y Ddeddf yn gosod dyletswyddau ar y cyrff hyn yn unig, fel cyflenwr dylech ddisgwyl gweld newidiadau i'r cwestiynau a ofynnir i chi a'r ffordd y mae contractau'n cael eu rheoli.

Bydd yn rhaid i Awdurdodau Contractio gyhoeddi Amcanion, Strategaethau Caffael, a Chofrestr Contractau. Bydd yn rhaid iddynt hefyd ystyried cynnwys cymalau enghreifftiol yn yr holl gontractau gwasanaethau a ddarperir gan gyflenwyr allanol a chontractau adeiladu mawr a chymhwyso'r rhain drwy eu cadwyni cyflenwi. Os byddant yn penderfynu peidio â chynnwys a chymhwyso'r cymalau, bydd yn rhaid iddynt roi gwybod i Weinidogion Cymru, gan roi rhesymau.

Dylai cyflenwyr:

- yn y sector adeiladu ymgyfarwyddo â'r cymalau enghreifftiol sydd wedi'u cynllunio i sicrhau bod taliadau yn cael eu diogelu ac yn llifo'n gyflym trwy eu cadwyni cyflenwi, a bod canlyniadau llesiant a gynhwysir mewn prif gontractau yn cael eu holrhain trwy eu cadwyni cyflenwi;

- o wasanaethau a ddarperir drwy gyflenwyr allanol ymgyfarwyddo â'r cymalau enghreifftiol sy'n diogelu telerau ac amodau trosglwyddo gweithwyr a gweithwyr newydd

- paratoi i weithredu'r cymalau.

Bydd yn ofynnol i Awdurdodau Contractio hefyd gyhoeddi Adroddiad Blynyddol sy'n cynnwys gwybodaeth am lesiant o ran eu cyflenwyr. Os dyfernir contract cyhoeddus i chi, efallai y gofynnir i chi gynnwys eich atebion i set o gwestiynau am eich busnes yn eich Proffil Cyflenwr ar GwerthwchiGymru.  Ceir gwybodaeth am GwerthwchiGymru yma.

Bydd y dyletswyddau newydd yn cael eu cymhwyso mewn ffordd gymesur. Dylai Awdurdodau Contractio ganolbwyntio ar y risgiau a'r cyfleoedd o ran llesiant sydd fwyaf perthnasol i bob caffaeliad, yn enwedig ar gyfer contractau â gwerth is.

Ewch i'n tudalen we am ragor o wybodaeth.